# Ordinhad 5

# Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Anacademaidd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

## Ordinhad 5
## Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Anacademaidd

1. Yn unol â pharagraff 9.4 y Siarter, penodir yr aelod a enwebir gan y staff academaidd i'r Cyngor fel a ganlyn.

2. Y cyfnod arferol yn y swydd fydd pedair blynedd. Mae'r unigolyn yn gymwys i'w ailbenodi am un cyfnod arall, fel arfer hyd at bedair blynedd, ac yna bydd yn anghymwys i'w ailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.

3. Trefn Benodi

    a. Pan fo sedd yng nghynrychiolaeth y staff ancademaidd ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn hysbysu holl aelodau'r staff anacademaidd sy'n gyflogedig ar y pryd o hynny ac yn galw am enwebiadau.

    b. Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.

    c. Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag.

    d. Os cynhelir y bleidlais yn bennaf trwy ddulliau electronig, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn trefnu bod aelodau o'r staff anacademaidd yn gofyn am bapur pleidleisio.

    e. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn penodi dau archwiliwr i etholiad trwy bleidlais, a bydd o leiaf un ohonynt naill ai'n aelod annibynnol o'r Cyngor neu'n aelod staff academaidd.

    f. Gwahoddir un cynrychiolydd o bob un o'r undebau llafur cydnabyddedig i weithredu fel arsylwyr yn ystod cyfrif y papurau pleidleisio a gwirio unrhyw bleidleisiau a fwriwyd yn electronig.

    g. Ni fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu/ei henwebu.

4. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

5. Ar wahân i'r darpariaethau uchod, pennir dull yr etholiad yn ôl doethineb Ysgrifennydd y Brifysgol.

6. Os daw unrhyw sedd yn wag dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull cyffelyb i'r uchod. Bydd unrhyw un a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod. Am